**LC337**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU DRAFFT**

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT DRAFT**

**Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 10) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn, a gafodd ei wneud ar 31 Awst 2001, yn diwygio Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau 1983 mewn perthynas â materion ynghylch cynelau hela, partïon saethu a phersonau yn dod ynghyd mewn perthynas â gwerthu anifeiliaid.

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae'r canlynol yn faterion y gall fod angen i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad amdanynt fel enghreifftiau lle mae'n ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol.

**Erthygl 2(6)**

Mae testun Erthygl 29A(2) fel y'i mewnosodwyd ar gyfer Cymru gan OS 2001/1874 (Cy. 134) yn wahanol i'r un a fewnosodwyd ar gyfer Lloegr gan OS 2000/1862.

Yn ôl pob golwg, mae'r diwygiad yr honnir ei fod yn cael ei wneud gan Erthygl 2(6) yn berthnasol i destun Erthygl 29A y mae iddo effaith yn Lloegr yn hytrach nag i'r testun y mae iddo effaith yng Nghymru.

**Erthygl 4**

Mae hyn yn cyfeirio at –

> "the provisions of Parts III or IIIA of the 1983 Order as amended by this Order"

Er hynny, nid yw’n ymddangos bod y Gorchymyn presennol yn diwygio Rhan IIIA.

**Sylwadau Cyffredinol**

Yn ôl ail baragraff y Nodyn Esboniadol mae diwygiadau yn cael eu gwneud i ddileu’r gofyniad am drwydded mewn ardal heintiedig neu ardal a reolir ar gyfer symud carcasau etc allan o gynelau hela i’w gwaredu o dan offerynnau statudol penodol.

Gall hyn fod yn gamarweiniol er bod yna ddarpariaeth ar gyfer eithriad o’r fath, gan mai’r unig reswm dros ei ddarparu yw’r ffaith bod y Gorchymyn presennol wedi ychwanegu cynelau hela at y rhestr o safleoedd y mae’r gwaharddiad ar symud etc carcasau yn gymwys iddynt.

**J H TURNBULL**
**Cynghorydd Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfau**

Cyf: LAD 01-01-391

13 Medi 2001